
# y DINESYDD

Ionawr/Chwefror 1996 "LLAIS Y GYMUNED" Rhif 215

*PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH*

Y Prifathro, , Mr A W Dunphy ac Ysgol Uwchradd Fitzalan yn niwl Chwefror — Llun Robin Griffith

# YSGOL GYMRAEG ARALL

**Roeddem i gyd, mae'n siŵr, yn falch o glywed yn ddiweddar am y cynlluniau arfaethedig i ddatblygu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir ac mae'r *Dinesydd* yn falch o fedru nodi inni gael erbyn hyn gadarnhad swyddogol o lygad y ffynnon.**

Bwriedir yn bedant sefydlu "starter class" fis Medi eleni yn un o adeiladau gwag Ysgol Uwchradd Fitzalan, fel y gwnaed yn Howardian rai blynyddoedd yn ôl, ac agor Ysgol Gynradd Gymraeg newydd un ffrwd ym mis Medi 1997 ar gaeau ysgol Fitzalan lle y bydd digon o le i'w changu'n ysgol ddwy ffrwd os bydd galw maes o law am hynny. Gwyddom am y gwaith caled a wnaed gan y Cynghorydd Peter Perkins i sicrhau'r datblygiadau hyn a charem ddiolch iddo am ei lafur ac am ei agwedd iachus a theg at addysg Gymraeg erioed.

### Agwedd iachus y prifathro

Mae prifathro Fitzalan, Mr A W Dunphy, er yn Sais, yn un sydd bob amser wedi cefnogi'r Gymraeg mewn llawer dull a modd, a gellir bod yn gwbl hyderus y caiff y dosbarth Cymraeg ar ei safle bob chwarae teg a chymorth ganddo.

Da oedd clywed hefyd fod y Cyfarwyddwr Addysg, Mr Tom Davies, wedi gofyn i Mr Malcolm Thomas weithredu dros dro fel Ymgynghorwr i'r sir ar faterion yn ymwneud ag addysg Gymraeg a bod Mr Thomas, o ganlyniad, yn aelod o'r Gweithgor Cymraeg sy'n cyflwyno awgrymiadau ynglŷn ag addysg Gymraeg i'r Pwyllgor Addysg llawn.

Rai misoedd yn ôl buom yn sôn am yr hyn oedd ar y gweill o ran addysg uwchradd Gymraeg a da yw clywed erbyn hyn fod y Gweithgor Cymraeg yn argymell agor y ddwy ysgol ym mis Medi 1997. Bydd y Pwyllgopr Addysg llawn yn ystyried argymhelliad ymhen fawr o dro ac mae lle i gredu y bydd ymhlith y rhai a gaiff flaenoriaeth wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Wrth inni aros yn eiddgar am y penderfyniad terfynol, doeth er hynny fyddai cadw mewn cof mai diwedd y gân yw'r geiniog ac mai mynd yn brinnach mae'r geiniog er gwaethaf yr honiadau a wneir mewn rhai cylchoedd.

***B D Harries***

**Cydymdeimlo**

# Cofio am Alun Davies

**Brawychwyd pawb a glywodd am farw disymwyth Alun Davies ddechrau Rhagfyr ac yntau'n 52 oed.**

Un o blant bryniau Sir Aberteifi oedd Alun. Fe'i ganwyd yn Llanafan ar lannau afon Ystwyth a chafodd ei addysg mewn ysgolion lleol cyn graddio yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor. Ym mynwent Llanafan, ger hen stad y Trawsgoed, mewn cynhebrwng cryf oedd yn dyst i'r parch a haeddai, y daearwyd ei weddillion.



*Alun Davies (chwith) wrth ei waith*

Hwyrach mai agosrwydd Trawsgoed a barodd fod ganddo ddiddordeb arbennig mewn achau a pherthynasau. Gwyddai lawer iawn am achau ei deulu ei hun, ond doedd hyn ond megis man cychwyn iddo gan i'w ddiddordeb yn y maes ymestyn i'r fath raddau fel y gwyddai lawer am achau llu o deuluoedd trwy Gymru.

Roedd yn ŵr gweithgar mewn sawl maes a'i ddiddordebau'n eang. Roedd yn aelod Llafur gweithgar dros ardal Trelai ar Gyngor y Ddinas ac fe fu am gyfnod yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Glantaf. Roedd datblygiad yr ysgol hon yn agos iawn at ei galon.

Roedd yr iaith Gymraeg a'r bywyd Cymreig yn naturiol yn bwysig iddo, ac ymdrechai i'w hyrwyddo bob cyfle a gâi.

Dylanwad ei fagwraeth ar aelwyd ddiwylliedig Lafur, yng nghanol Rhyddfrydwyr tanbaid Ceredigion a'i troes at y Blaid Lafur.

Cyn iddo ymddeol yn gynnar, fel y gallai ddilyn ei amrywiol ddiddordebau a chwarae ambell gêm o golff, gweithiai fel is-guradur yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan, gan arbenigo yn hanes dodrefn. Roedd yn un o brif arbenigwyr Cymru ym myd clociau a dodrefn ac roedd galw mynych am ei wasanaeth a'i gyngor yn y meysydd hyn ac roedd ei wyneb yn gyfarwydd ar y teledu.

Roedd wrth ei fodd yn gweld llawer o ffrwyth ei lafur yn un o'r tasgau olaf a gyflawnodd yn Sain Ffagan, sef bod yn rhan o'r gwaith o symud Sefydliad y Glowyr o Oakdale i'r amgueddfa werin; gweithred i gofio am ei gefndir Sosialaidd. Ychydig cyn hyn roedd wedi bod yn gweithio tuag at lunio arddangosfa o ddodrefn a gafodd ei wneud mewn ffatri ym Mrynmawr, ffatri a sefydlwyd gan y Crynwyr rai blynyddoedd ar ôl diwedd y Rhyfel Mawr.

Roedd yn gyd-awdur cyfrol Saesneg bwysig a gyhoeddwyd gan Wasg Rhydychen ar wneuthurwyr clociau sir Drefaldwyn, a'i obaith oedd cael parhau gyda'r gwaith ar ddodrefn y cartref ar ôl ei ymddeoliad a chymharu'r dodrefn a ddefnyddir yng Nghymru a Llydaw.

Mae ein cydymdeimlad dwys gyda'i fam, Myfanwy, sy'n dal i fyw yn yr hen ardal yn Llanafan, Meirion, ei frawd, a'i deulu, a'i wraig Ann a fu'n gymar cadarn iddo drwy'r blynyddoedd.

***********

# Mrs Gladys Thomas

**Yn gynnar yn Ionawr bu farw Mrs Gladys Thomas, priod Mr Elwyn Thomas, Heol Pant-bach, Rhiwbeina.**

Roedd y rhai a arferai fynychu siop y "Cabin" ar sgwâr y pentre'n gyfarwydd â gweld ei hwyneb siriol a byddai amryw'n ei hadnabod fel Gladys Llwyn.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu bach yn ei alar.

***********

# Mr Richard Jones

**Yn ddisymwth ar 7 Ionawr, bu farw Richard Jones, Clarendon, Cyncoed Avenue, Caerdydd, ac aelod ffyddlon, gyda'i gymar hoffus,. Beti Wyn, yng Nghapel y Crwys.**

Am flynyddoedd bu'n gweithio gyda'r Bwrdd Nwy ond roedd ganddo amser bob amser i hyrwyddo'r diwylliant Cymreig.

Hanai'n wreiddiol o'r Rhyl a threuliodd dipyn o'i fywyd yn Llandrillo-yn-Rhos, ond roedd y ddinas hefyd yn agos at ei galon ac fe'i gwelid yn aml gyda'i gymar yn ystod y chwedegau pan oedd honno'n trwytho'i pharti bychan i berfformio a chanu penillion yn neuadd Reardon Smith a mannau eraill.

Mae ein cydymdeimlad gyda Beti Wyn a hefyd Stephen ac Eryl, eu dau blentyn a'r wyrion.

# Mr Stuart Griffiths

Yn gynnar yn Ionawr, yn Ysbyty'r Mynydd Bychan, Caerdydd, by farw Mr Stuart Griffiths, Cyncoed.

Gŵr â'i wreiddiau yn Aberaeron oedd Mr Griffiths. Pan oedd yn ifanc roedd wrth ei fodd yn chwarae pêl-droed. Bu'n chwarae fel gôl-geidwad i dîm cyntaf Aberystwyth am flynyddoedd ac enillodd ei gap yn nhîm amatur Cymru.

Er mai yng Nghaerdydd yr oedd yn byw, byddai'n dychwelyd i'w hoff Aberaeron

Ar derfyn ei yrfa roedd yn Brif Ddarlithydd yn Adran Ymarfer Corff Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg (fel yr oedd yr adeg yno). Roedd yn fawr ei barch ymhlith y myfyrwyr a bu ganddo dîm pêl-droed o safon uchel am flynyddoedd.

Roedd ynaelod ffyddlon yng Nghapel Ebeneser.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Megan, ei briod, a'r holl deulu yn eu galar.

++++++++++

## Llongyfarchion

Llongyfarchion i'r Parchedig W I Cynwil Williams ar gwblhau ugain mlynedd yn bugeilio aelodau Capel y Crwys, Heol Richmond. Brodor o ardal Cwrtycadno yw Mr Williams, a daeth i Gapel y Crwys wedi cyfnod llewyrchus yn bugeilio aelodau'r Capel Mawr, Dinbych.

Dymunwn bod hwyl a bendith iddo yn ei fugeiliaeth yn y dyfodol.

++++++++++

Llongyfarchion i Keith Davies, Rhiwbeina sydd wedi cael ei ddyrchafu i Radd Saith yn y Swyddfa Gymreig. Ar hyn o bryd mae yn Adran Perfformiad Ysgolion, ac yn gyn is-ysgrifennydd preifat i Nicholas Edward a Peter Walker.

Mae gwreiddiau Keith dDavies yn ardal Ponterwyd yng Ngheredigion.

++++++++++

Llongyfarchion i Ffion Jenkins, Rhiwbeina am basio'r Bwrdd Gradd Saith yn y Swyddfa Gymreig. Ar hyn o bryd mae Ffion yn is-ysgrifennydd preifat i William Hague ond mae'n bosibl y bydd yn dychwelyd i swydd arall yn y Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd cyn hir.

++++++++++

Llongyfarchion i Christopher Woodard, Pen-y-lan ar ei benodiad i swydd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cafodd ei eni yn Llundain ond o Gaerdydd y mae ei deulu'n dod yn wreiddiol. Dechreuodd ddysgu Cymraeg mewn dosbarthiadau yn Lloegr ac mae wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ers pum mlynedd bellach.

Bydd Chris. a fu'n gweithio i'r gwasanaeth iechyd, yn gweithio yn Adran y Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol a bydd ei waith yn cynnwys trafod cynlluniau iaith gyda chyrff yn y sector cyhoeddus ar ran y Bwrdd. Pob lwc iddo yn ei swydd newydd.

# Ble mae'r car?

**Problem gyfarwydd i addolwyr y byd modern yn y ddinas yw cael gwared ar y car.**

Mae gan ambell addoldy, fel Capel y Crwys a'r Tabernacl, feysydd parcio bychan ond does dim hanner digon o le yno i'r addolwyr yn aml.

Mae digon o le o gwmpas Eglwys Dewi Sant ond pan fo gwasanaeth cymun (poblogaidd tu hwnt) ar foreau dydd Mawrth, mae pobl wedi gorfod parcio ar y glaswellt o gwmpas yr eglwys, a hefyd pan fo angladdau.

Ond mae hyn i gyd wedi dod i ben yn sydyn. Mae Deddf Mannau Agored 1906 yn dweud fod y tir glas o gwmpas yr eglwys i gael ei gynnal gan Gyngor y Ddinas, oherwydd y pwysigrwydd o ddiogelu lleoedd agored. O dan y les hon mae hawl gan eglwys Dewi Sant i gynnal un cyfarfod awyr agored bob blwyddyn ar y glaswellt.

Ond does neb i barcio ar y glaswellt o hyn allan gan fod teiars y ceir yn gwneud llanast o'r glaswellt.

++++++++++

# Pen Blwydd hapus

**Mr W T Jenkins, Insole Place yw aelod hynaf eglwys Dewi Sant.**

Ar ddydd olaf 1995 roedd yn dathlu ei ben blwydd yn 90 oed ond fyddai neb yn credu hynny wrth edrych arno.

Cafwydd cyflwyniad bychan a theisen i nodi'r achlysur yn gynnar yn Ionawr ac yntau'n awr yn edrych ymlaen at y cant!

# Eglwys Dewi Sant

### Swper i Ddathlu

Ar ddechrau Ionawr, cynhaliodd aelodau Dewi Sant Swper dathlu'r flwyddyn newydd yn Neuadd yr Eglwys. Daeth tyrfa dda ynghyd i ymgomio a chymdeithasu.

### Pregeth i Ddathlu

Mae Eglwys Dewi Sant yn dathlu ei phen blwydd yn ddeugain oed yng Nghilgantt Sant Andreas ym mis Tachwedd. Pregethir gan y Gwir Barchedig George Noakes, y cyn archesgob ac un a fu'n offeiriad yn yr eglwys, ar Ddydd Gŵyl yr Holl Saint.

## Llygad y Dydd

Beth amser yn ôl rhoddodd *Y Dinesydd* y drol o flaen y ceffyl a dweud y byddai llyfr Mrs Kathleen Wood, Cyncoed, *Llygad y dydd*, allan erbyn y Nadolig.

Ddigwyddodd pethau ddim yn union felly ond mae'r *Dinesydd* wedi cael gwybod y bydd y nofel ar y farchnad yn bendant ar ddiwedd y mis hwn; ffordd wych i aelodau Capel y Crwys, lle mae'r awdur yn aelod, i ddathlu gŵyl ein nawddsant. Mae'n waith gwerth ei ddarllen.

# HEULWEN MARY MORGAN

## (a'r Mudiad Ysgolion Meithrin)

**Rai wythnosau'n ôl bu farw Mrs Heulwen Mary Morgan yn ei chartref yng Nghyncoed.**

Gyda'i marw, fe ysgrifennwyd geiriau olaf pennod gyntaf ysgolion meithrin yn y ddinas.

Er i Heulwen gael ei magu yn y ddinas, roedd ei gwreiddiau yng ngorllewin Cymru, yn ardal Hendy-gwyn-ar Daf. Yno y byddai'n treulio'i gwyliau a hithau'n ferch ifanc a soniai'n aml am Henllan Amgoed, Llanfallteg, Arberth a Llanddewi.

Aeth i ysgol breswyl yn Bournemouth ac oddi yno i Brifysgol Llundain a graddio mewn Ffrangeg. Yna dychwelodd i Gymru i ddilyn cwrs marrchnata a busnes er mwyn ymuno â siop ei thad yn Heol y Crwys. Bydd llawer o ddarllenwyr *Y Dinesydd* yn dal i gofio am siop enwog *Bon Marche*! Gellid prynu llu o wahanol ddeunyddiau yno, gan gynnwys llyfrau Cymraeg i blant - hyn pan oedd y fath lyfrau a siopau i'w gwerthu, yn brin

Cyfeirir yn fwyaf arbennig yma at ei gweithgarwych am flynyddoedd yn hybu twf addysg feithrin Gymraeg yn y ddinas. Mewn man arall yn y rhifyn hwn, byddwch yn darllen am yr holl ysgolion Cymraeg sydd yng Nghaerdydd. Ond dyfalwch gyfnod pan oedd criw bychan, gweithgar a goleuedig yn ymladd i roi cychwyn ar bethau a rhoi hwyl i blant yn eu hiaith eu hunain. Dym,a lun:

**Plant yn chwarae**



**Llythyrau**

Fe all cyhoeddi llythyr a gafodd y teulu yn ei golled ddweud llawer am yr hyn a wnaeth hi ac eraill, llythyr Megan Phillips o Heol Cefn Carnau:

*Annwyl Handel a'r teulu*

*Rwy'n meddwl amdanoch yn eich hiraeth ac yn cydymdeimlo'n ddwys â chi yn eich colled.*

*Anghofiaf i byth garedigrwydd Heulwen i ni famau ac i'r plant, yn ein cludo nôl a mlaen i'r Ysgol Feithrin yn Festri Crwys - siwrne anghyfleus ar y bws i famau a phlant bach ganddyn nhw.*

*Roedd Heulwen am sicrhau dyfodol yr ysgol feithrin a mawr yw ein dyled iddi.*

Er bod yr ansawdd y lluniau yma'n wael, mae'n werth cyhoeddi dau lun i brocio'r cof. Os bydd unrhyw rai o ddarllenwyr y papur yn adnabod eu hunain, byddai'r *Dinesydd* yn falch clywed oddi wrthyn nhw.

Yn y llun cyntaf, mae Mrs Enid Jones-Davies, prifathraws gyntaf Ysgol Gymraeg Bryntaf gyda chriw o blant. Wyddoch chi pwy?

Mae'r ail lun ychydig yn wahanol:



Gobeithio eu bod yn ddigon clir inni gael gwybod pwy ydyn nhw. Anfonwch air.

Mae'r teulu am gofio am Heulwen mewn ffordd ymarferol a byddai'n anodd meddwl am well ffordd na gofyn i bobl gyfrannu at fudiad sy'n llewyrchus iawn dros Gymru gyfan erbyn hyn, sef Mudiad Ysgolion Meithrin.

Gellir anfon cyfraniadau at: **Mudiad Ysgolion Meithrin 145 Heol Albany, Y Rhath, Caerdydd CF2 3NT.**

Bydd pob dim yn help i fudiad sy'n tyfu mor gyflym, a gall ychydig ystadegau ddweud llawer Ar hyn o bryd mae un ar bymtheg o gylchoedd Ti a Fi yn y ddinas a thua 30 o ysgolion meithrin. Lledwch yr adenydd a mynd i'r Fro, ac mae gennych chi 6 chylch Ti a Fi arall a 12 ysgol feithrin, a phob un yn gwneud gwaith gwerthfawr i fwydo'r ysgolion mwy.

Ond mae angen llafurio yn y winllan o hyd. Mae Cylch Meithrin Pentre-baen yn chwylio am arwinydd/es i ddechrau ar ddiwedd Mis Chwefror. Mae'r cylch ar agor bob borer rhwng 9 a 12 o'r gloch. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Berthan Herbert: 01222 563265


# BU MYND AR Y JAZZ BAND A MYND AR Y DDAWNS - A'R BREGETH

## (Stori capel Bethel, y Dociau)

**(Ymchwil a llun gan Robin Griffith)**

Mewn man arall yn y rhifyn hwn, mae Capel y Crwys yn disgrifio dathlu llwyddiant a da hynny. Ond pe baem yn gallu troi'r cloc yn ôl i 1855, byddem yn gallu dychmygu llwyddiant arall - sef agor Capel Bethel yn y dociau ar gost o £2000. Roedd ynddo 14 o aelodau'n unig, wedi trosglwyddo o'r fam eglwys Y Tabernacl, Yr Ais.

Ac fe welodd nifer o weinidogion cadarn eu gweledigaeth a grymus eu pregethu. Berth am enwi un yn unig, a sôn am de parti arall, efallai, te parti i nodi buddugoliaeth Y Parchedig Thomas Davies (1878 - 1922) yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 1907. Enillodd gadair yr eisteddfod honno, a'r gŵr a enillodd y goron oedd un o hoelion wyth pulpudau Cymru, sef Y Parchedig John Dyfnallt Owen, gŵr a ddaeth yn archdderwydd wedi hynny. Bu'r Parchedig Tjomas Davies yn weinidog ar yr eglwys yno am ddwy ar hugain o flynyddoedd. Er nad oes dim o'i waith wedi goroesi, fe gâi ei gyfrif yn un o brif feirdd Cymru yn ei ddydd.



*Capel Bethel sydd ar fin cael ei ddymchwel*

**Tro ar fyd**

Hon oedd oes aur Bethel, Y Dociau, a'r gweinidog yn gweithio'n galed i gynnal cynulleidfa gan fod cymaint o fynd a dod yn yr ardal.

Ond daeth tro ar fyd ac rydyn ni erbyn hyn yng nghyfnod Y *Dinesydd*. Aeth nifer y gynulleidfa'n llai ac yn yn llai ac yn y diwedd cafodd ei droi'n glwb, ac mae rhywbeth yn eironig yn yr enw bedydd newydd a gafodd Bethel, Y Dociau. Cafodd ei enwi'n Glwb Casablanca a bu hoelion wyth byd pob fel Tom Jones yn canu yno, efallai am ei "green, green grass of home.". Roedd hefyd yn atynfa i bobl byd pop Cymraeg a rhai fel Huw Ceredig a Mici Plwm. Hywel Gwynfryn yn arwain sawl noson lwyddiannus yno. Roedd y glwb poblogaidd iawn gan fyfyrwyr ac roedd naws gwir Gymreig i sawl noson yno.

**Y bennod olaf**

Ond daeth y cyfnod hwnnw hefyd i ben. Caeodd y clwb. Does neb yn siwr beth ddigwyddodd wedyn ond cymerwyd yr holl lechi ymaith i'w gwerthu ac erbyn hyn dim ond ysgerbwd ohono sydd ar ôl a hwnnw'#n dadfeilio'n gyflym.

Ar un olwg, gall ddweud ei fod fel Tŵr Pisa yn un peth. Mae'n gogwyddo cryn dipyn ac mae'r haearn croes ar dop de'r llun yn awgrymu fod gogwyddo'n hen broblem iddo.

Cyn hir, fodd bynnag, bydd yn cael ei ddymchwel ac adeilad arall yn codi yn ei le .

Gobeithio y bydd rhyw dabled yn rhywle - i'n hatgoffa amdano, neu fel y dywedodd un wag, "I gofio am un o fethiannau'r Brenin Mawr yn y ddinas."

++++++++++

## Diolch am gymorth

Mae'r *Dinesydd* yn diolch am bob cymorth ariannol. Y tro hwn diolchir i Eglwys Heol y Crwys am rodd o £50 ac Eglwys Heol Minny am rodd o £25. Heb roddion o'r fath, byddai cyhoeddi'r papur yn amhosibl. Mae'r coffrau'n isel ar hyn o bryd ac mae digon o arian ar ôl i gyhoeddi tri rhifyn, gan gynnwys hwn.

# Y CAMPAU
**(dan ofal Thomas Davies)**

### Gwisg newydd

Mae timau rygbi a phêl-droed Ysgol Melin Gruffydd yn ddiolchgar iawn i'w noddwyr hael, sef Cwmni Teledu Opus, Derwen a Splash Computergraphics am eu gwisgoedd chwaraeon. Gwelir cynrychiolwyr o'r tri chwmni gyda'r plant a phrifathro'r ysgol yn y llun hwn.



### Mabolgampau Urdd Gobaith Cymru

Yn ystod yr hydref cynhaliwyd cystadlaethau cynradd De Morgannwg a chafwyd ymateb da iawn - bu mwy o dîmau nag erioed o'r blaen yn cystadlu.

Ysgol Marlborough oedd enillwyr y bêl-rwyd ac Ysgol Rhydypennau y nofio ac â'r ddwy ysgol hyn yn eu blaenau i gynrychioli'r sir yng Nghystadlaethau Cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth. Mae'r Urdd yn ddiolchgar dros ben i'r ugain ysgol am gefnogi'r gweithgareddau.

Dyma rai o aelodau Clwb Pêl-rwyd Caerdydd sy'n cwrdd bob bore Sadwrn yng Nghanolfan yr Urdd rhwng 10 ac 11 o'r gloch. Yr hyfforddwraig yw Anwen Jones ac mae'r Mudiad yn gwerthfawrogi ei gwaith yn fawr iawn.




(I dudalen 7

**Y Bêl hirgron**

Er i Gaerdydd fethu ag ennill Tlws Clybiau Ewrop ddechrau Ionawr, parahodd yr ornest olaf 110 o funudau am fod y sgôr yn gyfartal ar ddiwedd y pedwar ugain munud (15 - 15). Yn yr hanner awr ychwanegol sgoriodd Toulouse chwe phwynt arall i dri Caerdydd: rhaid dweud eu bod yn haeddu ennill oherwydd iddynt sgorio dau gais yn nechrau'r ornest (chwe gôl gosb a gafodd Caerdydd). Ond mae llongyfarchiadau gwresocaf yn ddyledus i Gaerdydd am eu dygnedd, er na allai'r tîm sgorio cais na hyd yn oed greu cyfle i sgorio un. Y tymor nesaf bydd mwy o dîmau yn y gystadleuaeth - rhai o Loegr a'r Alban, yn ogystal ag o'r gwledydd y bu tîmau ganddynt y tymor hwn; gobeithir y caiff Cymru bedwar o'i chlybiau i chwarae am y Tlws y tro nesaf. Siomedig fu'r gefnogaeth yn y tair gornest a chwaraewyd yma, ond gwelodd mwy nag ugain mil y Rownd Olaf ar y Maes Cenedlaethol. Cyn i rifyn nesaf y papur hwn ymddangos byddwn ni'n gwybod sut obaith fydd i'n Tîm Cenedlaethol ym Mhencampwriaeth y Pum Gwlad eleni.

**Clwb Cylchu'r Cwrs**

Bob nos Fercher, yng nghanolfan yr Urdd, rhwng 6 a 7 o'r gloch cynhelir Clwb Cylchu i oedolion. Y gost yw £2 y tro ac mae croeso i bawb!

## Llongyfarchion

Estynnwn ein llongyfarchion cynhesaf i Mr Malcolm Thomas, Cyn brifathro Ysgol Gyfun Glantaf, am gael ei anrhydeddu â'r OBE gan y frenhines



Malcolm Thomas *Llun Robin Griffith*

Daeth yr anrhydedd hwn iddo oherwydd ei gyfraniad clodwiw i addysg Gymraeg yn y ddinas a mannau eraill drwy'r blynyddoedd ac mae'n parhau i wneud hynny ar ôl ei ymddeoliad. Mewn gair, mae mor brysur ag erioed.

Mae eisoes wedi cael ei anrhydeddu â gwisg wen yr orsedd.

# Tŷ'r Cymry - Dathlu 60 mlynedd

**Fe fydd Tŷ'r Cymry, Caerdydd yn chwe deg oed y mis hwn. Yn ystod ei drigain mlynedd fe gyfrannodd yn helaeth at Gymreictod y ddinas. Nid y lleiaf o'i gyfraniadau fu sefydlu a chynnal yr ysgol feithrin Gymraeg gyntaf un a hynny yn ystod blynyddoedd y rhyfel diwethaf. Pery'r ganolfan addysg feithrin Gymraeg o hyd.**

**Bu'n flaenllaw mewn hyrwyddo gweithgareddau a arweiniodd at sefydlu ysgol gynradd Gymraeg gyntaf Caerdydd. Trwy weledigaeth a dyfalbarhad aelodaui'r Tŷ hefyd y codwyd sawl grŵp o rieni ym Morgannwg a fynnodd ysgolion Cymraeg i'w plant.**

Ar drothwy ei drigain oed mae Tŷ'r Cymry yn lleoliad wyth dosbarth Cymraeg bob wythnos a chyfarfydd Cymdeithas y Tŷ, Dosbarth CAG/WEA a chymdeithasau eraill yno'n fisol. Gwaetha'r modd mae'n wynebu argyfwng ariannol oherwydd nid oes ganddo gronfa gynhaliol o gwbl. Penderfynodd Pwyllgor y Tŷ glymu'r dathlu pen-blwydd â chais i greu cronfa gynnal i'r Tŷ.

Ar y cyd gydag Ysgol Feithrin Tŷ'r Cymry trefnir noson o Hwyl a Chân nos Iau, 15 Chwefror 1996 yn Neuadd Ysgol Uchaf Glantaf, trwy garedigrwydd prifathro'r ysgol. Bydd y cyfan yn dechrau am 7 o'r gloch a'r pris mynediad yw £3. Bydd plant o ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd a'r ysgol uwchradd yn cymryd rhan a bydd paned a bisged neu deisen ar y diwedd. Dewch yn llu i'n cefnogi.

++++++++++

## CLWB YN Y DDINAS

**Cae yng nghanol nunlle yw'r lleoliad a gysylltir gan amla â nosweithiau rêf, ond nid felly bartïon misol Time Flies, sydd yn cymryd lle yn Neuadd y Ddinas ac yng Nghlwb Astoria am yn ail.**

Ciwio am yr Housing Benefit bondigrybwyll yw'r rheswm dros fynd i Neuadd y Ddinas fel arfer i nifer fawr o ieuenctid y ddinas, ond bob yn ail fis mae'r neuadd yn llenwi efo rêfars ifanc - mae'r gerddoriaeth yn pwmpio a delweddau lliwgar yn cael eu taflu ar y muriau.

Tu allan i'r stafell ddawnsio mae yna far bychan, a phobl ifanc y brifddinas yn pwyso yn erbyn delwau o bwysigion Cymru wrth yfed eu poteli dŵr. Mae'r ffaith fod y Neuadd wedi agor ei drysau i bobl ifanc yn gweithredu fel cynnig hael sydd yn gwneud i bobl ifanc deimlo fod ganddynt le yn nhrefn pethau yn y brifddinas, hyd yn oed os nad yw hynny'n gwbl wir.

Nid yw pobl hŷn ar y cyfan yn cymeradwyo bodolaeth rêfs ond mae'r ffaith fod rhai'n cael eu cynnal mewn adeilad o'r fath statws a thraddodiad yn rhoi ychydig chwarae teg hir-ddisgwyliedig i ddiwylliant pobl ifanc.

Neuadd newid dwylo, ac mae selogion partïon Time Flies yn gobeithio y bydd croeso yn parhau i fod yn gyson am flynyddoedd i ddod. Mae ychydig o ewyllys da yn mynd yn bell ac mae Cyngor Dinas Caerdydd fel arfer yn eitha da am gynnal gweithgareddau sydd wedi Mae clybiau nos yn newid dwylo yn gyson yng nghanol y dref ond does 'na fawr o beryg i'r eu hanelu at bobl ifanc. Bob blwyddyn mae'r Cardiff Big Weekend yn cynnig llwyfan i fandiau'r ardal; bu ffair anferth o amgylch y Neuadd dros gyfnod yr ŵyl Nos Galan ac mae'r ŵyl Ewropeaidd yn Yr Ais bob haf yn denu cannoedd.

Efallai bod Caerdydd yn dechrau ymddwyn fel prifddinas o'r diwedd.

***Beca Brown***

# Fécamp a fi

Yn ddiweddar cafodd rhai o ddisgyblion Ysgol Glantaf sy'n astudio Ffrangeg Lefel A y cyfle i fynd i Ffrainc ar brofiad gwaith.

**BRANWEN GWYN** sy'n adrodd yr hanes yma.

**Mae'n rhaid cyfaddef ein bod i gyd braidd yn bryderus wrth groesi'r sianel o Portsmouth i Le Havre.**

"Dwi ddim eishe mynd!"

"Beth os fydda i'n casáu fy ffrind Ffrengig?"

"Wna i fyth eu deall nhw'n siarad!"

Dyna rai yn unig o'r gofidiau o'n blaenau ni ar ein ffordd i Ffrainc am bythefnos o brofiad gwaith.

Ond cyn gynted ag y cwrddais â Hélène a'i theulu gwyddwn y cawn amser wrth fy modd. Roedd y teulu'n byw tua deng milltir tu allan i Fécamp, mewn pentref bach tawel o'r enw Goneville-la-mallet.

Roedd y teulu'n hynod groesawgar o'r dechrau un. Gwnaent bopeth posib i wneud i mi deimlo'n gartrefol! Roeddwn i'n dod ymlaen yn arbennig o dda gyda'r teulu, yn enwedig chwaer Hélène, sef Claire sy'n bedair ar bymtheg oed.

Rhaid dweud 'mod i wedi cael sioc pan ddarganfyddais pryd oedd rhaid codi bob bore i ddal y bws i Fécamp - 6 o'r gloch!

Roedd yn galed, ac yn oer, ac yn gynnar iawn.

Rown i wedi dewis cael fy lleoli mewn crèche ac felly roeddwn yn edrych ymlaen at chwarae gyda llu o blant bach bywiog.

Ches i mo'm siomi. Roedd pymtheg o blant yn fy ngrŵp i a chefais lawer o hwyl yn chwarae, tynnu lluniau, canu a siarad â nhw. Mae'n syndod faint o Ffrangeg y gellir ei ddysgu i blentyn dwyflwydd oed!

Bob amser cinio fe awn i'r caffi yng nghanol y dre, Le Paguol, i gwrdd â fy ffribdiau - Roedd saith ohonom o Lantaf, ac eraill o ysgolion Cantonian a Stanwell.

Roedd amrywiaeth o swyddi ganddynt - rhai mewn ysgolion, rhai mewn becws, eraill mewn swyddfa graffeg, un mewn siop flodau ac un arall mewn bwyty.

Gyda'r nos byddwn yn treulio amser yn siarad gyda Hèléne a Claire (Ffrangeg bob gair!), yn gwylio teledu Ffrangeg (er nad oeddwn yn deall pob un gair) ac yn bwyta bwyd Ffrengig.

Ar y diwrnod olaf, aethom ni i gyd i'r Amgueddfa Benedictine yn Fécamp ac yna i ffatri gwneud siwgr, ble cafwyd dim byd ond cwyno am fod drewdod y betys-siwgr yn annioddefol!

Yn sicr, elwais yn fawr ar y cyfnod yn Ffrainc gan nad own i'n siarad dim ond Ffrangeg drwy'r dydd. Dysgais gymaint am y wlad a'i phobl. Roedd yn brofiad amhrisiadwy.

**Cystadleuaeth Iolo Morganwg**

**Bob blwyddyn mae'r papur bro *Tafod Elái* yn cynnal cystadleuaeth farddoniaeth o dan yr enw "Cystadleuaeth Iolo Morganwg". Daeth tipyn o lwyddiant i ran disgyblion Ysgol Glantaf yng nghystadleuaeth 1995.**

Yn adran Blwyddyn 7, Manon Jones a gipiodd y wobr gyntaf ac Elin Nash yr ail wobr. Yn adran Blynyddoedd 8 a 9 daeth Lisa Nash a Dafydd Kidd yn gydradd ail. Huw Stephens oedd yn fuddugol yn adran blynyddoedd10 ac 11 a daeth Siân Elis Williams yn drydydd. Dyma'r ddwy gerdd fuddugol:

### Yn y Tywyllwch

Yn nhywyllwch profedigaeth
Teimlaf wacter fy nghalon
Rwyf yn sefyll yn stond
A'r byd yn mynd heibio.

Wrth edrych ar y blwch pren
Lle gorweddai yn dawel
Ei chorff yn fach
Ei chariad yn fawr.

Tywyll yw'r funud hon
Ond rhaid byw ar atgofion
Bydd yn chwithig hebddi
Ond bydd hi yn fy nghalon am byth.

*Manon Jones*

### Yfory

Dim heddiw, dim diolch.
Dwi'n brysur, gormod i'w wneud,
pethe pwysig, pobl i'w gweld,
Llefydd i fynd, pethau i'w clywed,
Dim heddiw, dim diolch.
Ma' angen bylb i'r gegin,
bwyd i'r gath,
papure i'w talu.
Dim heddiw, dim diolch.
Ond 'fory.
Buasai fory'n wych -
dim i'w wneud 'fory,
popeth 'di ddarllen,
popeth 'di neud -
Bobman ar gau,
'fory'n wych, fory'n grêt,
bylb yn ei le,
Y gath yn hapus,
'fory'n wych,
dwi'n edrych 'mlaen.
'fory.

*Huw M. Stephens*

++++++++++

**Glantaf a Man Iwl**

Fe fu Rhodri Jones, 14, yn cael treial pêl-droed gyda chlwb enwog Manchester United yn ddiweddar. Fe gafodd gyfle i weld ambell gêm bwysig pan oedd yno a chyfle i chwarae ambell un hefyd. Bydd yn cael gwybod canlyniadau hyn yn y man. Pob lwc iddo

**Tipyn o hanes agoriad swyddogol Eglwys y Crwys yn ddiweddar**

# Y Cantorion a'r cerddorion a fyddant yno

**Delwyn Tibbott**

**Fe ŵyr nifer dda o ddarllenwyr *Y Dinesydd* am y digwyddiadau cyffrous yn Eglwys y Crwys yn ystod y blynyddoedd diwethaf.**

Saith mlynedd yn ôl fe adawsom yr hen gapel, Heol-y-Crwys, a symud i adeilad mwy modern yn Heol Richmond. Cyn symud i mewn fe wnaethpwyd nifer o welliannau i'r capel newydd, yn cynnwys rhoi tô brig newydd arno, rhoi oriel ynddo a throi nifer o ystafelloedd bychain yn festri o faint digonol.

### Gwelliannau di-rif

Wrth inni ymgartrefu yno fe aethom ymlaen â'r gwaith o wella'r capel. Ymhlith pethau eraill fe ddarparwyd cegin sylweddol a chreu theatr ar gyfer ein Cymdeithas Ddrama. Fe agorwyd ein theatr yn swyddogol gan Maureen Rhys a John Ogwen beth amser yn ôl.

Fe gyrhaeddodd y gwaith adeiladu ei benllanw yn ystod yr haf eleni pan roddwyd talwyneb newydd i'r capel. a bnawn Sul 3 Rhagfyr fe agorwyd y capel yn swyddogol gan Dr Roderick Bowen C.F. ym mhresenoldeb llond capel o aelodau a chyfeillion. Ar ddechrau ei sylwadau fe ofynnodd, "Pam Bowen?" ond yn ystod ei gyflwyniad fe eglurodd ein gweinidog, Y Parchedig Cynwil Williams, fod Dr Bowen wedi bod yn aelod yn eglwysi Pembroke Terrace a'r Crwys er 1937. Hefyd o wybod pwy oedd yn cymryd y brif ran yn y cyngerdd a oedd i ddilyn ni ellir bod wedi cael neb gwell na gŵr o Geredigion a fu'n cynrychioli'r sir yn y Senedd am 21 mlynedd.

### Testun trawiadol

Fe gymerodd Dr Bowen adnodau o Salm 87 yn destun i'w araith: "Yr Arglwydd a gâr byrth Seion...y cantorion a'r cerddorion a fyddant yno." Fe ganolbwyntiodd ar y porth gan mai hwn oedd y rhan ddiweddaraf o'r gwaith i'w gwpláu. Dywedodd fod i borth ddau bwrpas: dod i mewn drwyddo a mynd allan drwyddo i ledaenu'r ffaith fod gan Gristnogaeth neges i'r byd heddiw.

### Cyngerdd o safon

Yna cafwyd cyngerdd y cael ei gyflwyno gan Mr Robin Jones. Côr Meibion Aberystwyth, dan arweiniad Mrs Margaret Maddock, a gymerodd y baich trymaf, a Mr Gordon Appleton yn cyfeilio iddo. Fe ganwyd dros ugain o ganeuon ganddynt, yn amrywio o waith Cherubini, Mozart a Schubert i weithiau gan William Mathias, Gareth Glyn a Ryan Davies.

Yn ystod y cyngerdd cawsom eitemau gan dri unawdydd proffesiynol sy'n aelodau yn Y Crwys, sef Siriol Williams, merch ein gweinidog, Iona Jones, merch y cyflwynydd, a Gareth Rhys Davies o'r Cwmni Opera Cenedlaethol. Cyfeiliwyd iddynt gan Dr Dewi M Lewis. Cafwyd mwynhad mawr o'u clywed a theimlem ein bod yn ffodus iawn o gael y fath dalent ymhlith yr aelodau.

Talwyd y diolchiadau gan Mr D Gwyn Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol yr eglwys ac fe gyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Maddock gan Mrs Anne Innes, Ysgrifennydd y Gymdeithas.

### Testun diolch

Rydym yn ddiolchgar i'r côr a phawb arall am eu gwaith. Diolch arbennig i Mrs Beryl Evans, Aberaeron a Dr Roderic Bowen am dalu'r costau ac i aelodau pwyllgor y Gymdeithas dan gadeiryddiaeth Mr Garwyn Davies am wneud y trefniadau. Yn bennaf oll, diolch i Mrs Anne Innes am ei holl waith diwyd yn sicrhau llwyddiant y gweithgarwch. Aeth pawb adref yn sicr i hyn fod yn garreg filltir bwysig yn hanes yr eglwys

++++++++++

## Y Cymrodorion

### Gorffen y rhan gyntaf

Daethpwyd â rhan gyntaf y tymor i ben trwy ymuno â rhieni disgyblion Ysgol Gyfun Glantaf mewn cyngerdd corawl ac offerynnol yn yr ysgol.

Pa well ffordd i orffen yn Nhymor yr Adfent na thrwy gyngerdd amrywiol o safon uchel yn cwmpasu cerddoriaeth glasurol a modern?

Carem ddiolch i'r disgyblion am eu gorchest ac i Mr Alun Guy am ei gyfraniad a'i hyfforddiant cyson i sicrhau mwynhad i'r gwrandawyr a'r perfformwyr.

Diolch i'r prifathro, Mr Huw Thomas, am ei groeso. Dymunwn iddo fwynhad a llwyddiant yn ei swydd.

### Cychwyn yr ail ran

Ni ellid bod wedi cael gwell cynchwyn i ail ran y noson nag ar aelwyd gynnes Hywel a Gwyneth Jeffries, Tregarth, ar fin Llyn y Rhath

Ond ar ôl ystyried, hwyrach nad yw hyn yn hollol wir, o achos, wedi pryd blasus, cipiwyd y gynulleidfa o Gymru a thros Fôr Iwerydd i Eisteddfod Fawr Chicago a'r cystadlu brwd a fu yno. Noson i'w chofio yng ngwir ystyr y gair.

Wrth gwrs, pe baen nhw wedi dathlu i'r eithaf, fe fydden nhw wedi cael mam Ifor Novello Davies a'i chôr merched yn gormymdeithio o orsaf y dref, Ei chôr merched hi a enillodd y gystadlaethau i gorau merched.

++++++++++

**Y Dinesydd - deunydd rhifyn Mawrth**
Anfonwch eich deunydd erbyn 5ed Chwefror at un o'r panel golygyddol.

# YSGOLION CYNRADD CYMRAEG Y SIR

**B D Harries**

**Hyfryd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio oedd gallu cynnwys yn rheolaidd gyfraniadau o'r ysgolion hyn gan eu bod wedi amlhau yn sylweddol erbyn hyn oherwydd y galw cynyddol am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, nid rhyfedd i nifer o ddarllenwyr awgrymu mai da o beth fyddai inni gynnwys ychydig wybodaeth am bob un ohonynt.**

Carwn ddiolch i'r prifathrawon am gytuno i baratoi ar ein cyfer, er gwaethaf prysurdeb arferol diwedd tymor, rai manylion o bwys am eu hysgolion.

Ni chynhwysir y manylion mewn unrhyw drefn arbennig yma. Daw rhagor yn ystod y mis/oedd nesaf.

## YSGOL GYMRAEG MELIN GRUFFYDD

**Mae hon wedi ei lleoli yn Erw Las, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd ac mae ynddi hi 285 o ddisgyblion.**

Fe'i hagorwyd ym Medi 1979 gyda 72 o blant, y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi'u trosglwyddo o Fryntaf. Fe rannwyd y plant i dri dosbarth Plant Bach gyda Mrs Mair Robins (Dirprwy), Miss Janet Davies a Mrs Megan Evans yn eu dysgu. Mr D Gareth Evans (cyn-ddirprwy i Mr Tom Evans yn Ysgol Gymraeg Bryntaf) a gafodd ei apwyntio'n bennaeth.

Dalgylch gwreiddiol yr ysgol oedd Rhiwbeina, Y Waun, Yr Eglwys Newydd, Ystum Taf, Gabalfa, Llandaf a Threganna. Bellach mae mwyafrif (80%) y plant yn byw yn Yr Eglwys Newydd.

**Rhannu campwa**

Mae Melin Gruffydd yn rhannu campws gydag Ysgol Gynradd Eglwys Wen - sefyllfa ddelfrydol, yn enwedig gan fod y ddau brifathro (Mr Peter Morgan ydy'r llall) yn gyn-ddisgyblion Ysgol Sirol Ramadeg Ystalyfera, Cwm Tawe.

Eleni fe ddaeth yr ysgol yn rhan o fenter Adnabyddiaeth Ewropeaidd Brwsel. Nod y fenter ydy dod i adnabod cyd-weithwyr mewn ysgolion Ewropeaidd yn well trwy gyfnewid athrawon. Mae tair athrawes wedi ymweld ag ysgolion yn yr Eidal, Catalunya a'r Iseldiroedd. Yn y flwyddyn newydd fe fydd tair arall yn ymweld â'r Ffindir, Ffrainc ac Iwerddon.

**Athrawon ar daith**

Eisoes mae athrawes o Barcelona wedi bod gyda ni am wythnos ac fe fydd athrawon eraill yn dod atom ni yn eu tro.

## YSGOL MYNYDD BYCHAN

**Saif Ysgol Mynydd Bychan ar ffordd Yr Eglwys Newydd. Y cyfeiriad yw New Zealand Road, Cathays, Caerdydd.**

Adeiladwyd yr ysgol fel Ysgol Gatholig Sant Joseff tan Fedi 1994 pan agorwyd Mynydd Bychan ar y safle. Ni yw'r ysgol Gymraeg ifancaf yn y ddinas ac erbyn hyn mae gennym 73 o blant 4-7 mlwydd oed. Enw'r brifathrawes yw Susanne R. Smith.

Ar hyn o bryd derbynnir plant o sawl ardal yng Nghaerdydd, Tremorfa, Sblot, Pen-y-lan, Y Rhath, Llanedeyrn, Pen-twyn, Cathays a Maendy. Tair ysgol feithrin sy'n ein bwydo, sef Y Waun, Tŷ'r Cymry a Nant Lleucu. Erbyn y flwyddyn 1999, fe fydd yr ysgol yn ei llawn dwf.

Cynlluniwyd logo yr ysgol o dderwen, mynyddoedd a haul gan y cynllunydd ffasiwn enwog, David Emanuel. Dehonglir symbolau'r logo fel a ganlyn: yr haul yw'r addysg sy'n galluogi'r dderwen, sef y plentyn, i dyfu'n gryf a chadarn

Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yw dymchwel yr hen adeilad allanol a gosod man gwyrdd yn ei le. Er nad oes gennym gaeau chwarae, rydym yn hynod ffodus o gael croeso gan Dŷ'r Cwmnïau i ddefnyddio'i dir a'i fan cadwraeth natur.

Rydym wedi bod yma yn yr ysgol am dros flwyddyn ac rydym yn edrych ymlaen at ddathlu ein hagoriad swyddogol cyn diwedd y gwanwyn.

## YSGOL PEN-CAE

**Cyfeiriad Ysgol Pen-cae yw Highfields. Mae oddi ar Heol Gillian, Llandaf. Yn 1995 - 96 fe fydd ynddi 164 o ddisgyblion, i fyny at flwyddyn 5. Eleri Jones yw'r brifathrawes**

Dechreuwyd adeiladu estyniad i'r ysgol yn Nhachwedd 1995. Darperir pedair ystafell ddosbarth, cilfach gotiau, tai bach, cegin a neuadd. Edrychwn ymlaen at symud i mewn ym Medi 1996.

Bydd y plant yn creu cynllun o'r hyn yr hoffent ei weld ar faes chwarae newydd Pen-cae. Sefydlwyd gweithgor o'r Gymdeithas Rieni i helpu i ariannu'r gwaith

## YSGOL GYMRAEG COED-Y-GOF

**Lleolir yr ysgol hon yn Beechley Drive, Pentre-baen, Caerdydd. Ar hyn o bryd mae ynddi 299 o ddisgyblion. Mr Peleg Williams yw'r prifathro.**

Derbyniwn blant o Orllewin y ddinas. Ymfalchïwn yn ein traddodiad o hybu'r diwylliant Cymreig a rhoi ymwybyddiaeth o Gymreictod i blant y brifddinas.

Ysgogir cydwybod gymdeithasol ein plant mewn awyrgylch ofalgar drwy fodolaeth yr Uned Asrbennig a chyfannu plant ag anghenion arbennig o fewn y brif ffrwd.

Ceisiwn ar bob achlysur, yn blant ac athrawon, wireddi ein harwyddair, *Dyfal donc a dâl!*

# TUDALEN TIPYN O BOPETH

## Gwasanaeth Plygain

Mae'n arferiad dathlu Calan Hen yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth â chwrdd Plygain, a threfnwyd y cwrdd eleni gan Peter Wynn Thomas, yn ôl ei arfer, nos Sul 14 Ionawr.

Cafwyd nifer o gyfraniadau diddorol gan wahanol aelodau'r eglwys, ond mae'n siŵr mai'r digwyddiad mwyaf anghyffredin oedd cael eitem gan ymwelydd o Hwngari, sydd yn yr ardal ar hyn o bryd.

+++++++++

## Dim yoga mwy...?

Ers nifer o flynyddoedd, mae dosbarthiadau yoga ar gael yn Gymraeg yng nghyffiniau'r *Dinesydd* - yn ysgol Uwchradd Radur ar nos Lun ar hyn o bryd. Yr athrawes am flynyddoedd oedd Mrs Valmai Evans o'r Eglwys Newydd, a siom i'r mynychwyr i gyd y llynedd oedd ei bod am roi'r ffidil yn y to - os dyna mae "yogawyr" yn ei wneud!

Ond i gymryd ei lle daeth Mrs Dilys Rees, sy'n enedigol o Lanybydder. Mae'n byw nawr yn y Wenfô, ac mae'n arbenigwraig ar driniaethau aromatherapi, holistaidd, therapi niweidiau chwaraeon, a chymwysterau tebyg.

++++++++++

## Cyfrif pres am ugain ddeugain mlynedd!

Llongyfarchion i John Watkins ar gyflawni 40 mlynedd yn y byd bancio. Ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda Banc Cymru. Mae hefyd wedi rhoi'r gorau i'w swydd fel Trysorydd Eglwys Dewi Sant. Bydd Mel Amos yn cymryd ei le yn y swydd honno.

++++++++++

## Llyfr gramadeg newydd i'r iaith

Mae Gramadeg Cymraeg newydd sbon ar fin cael ei gyhoeddi. Yr awdur yw Peter Wynn Thomas, sydd ar staff Adran y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol Caerdydd. Bydd y gramadeg hwn, sydd tuag 800 o dudalennau o hyd, yn ffordd hollol newydd o edrych ar adeiladwaith y Gymraeg, ac yn wahanol i'r gramadegau traddodiadol sydd wedi eu cyhoeddi. Mae disgwyl mawr am y campwaith pwysig hwn, yn enwedig ymhlith academyddion, a dylem i gyd deimlo'n falch iawn o'r gŵr ifanc disglair hwn sy'n byw yn ein plith.

Yn Rhiwbeina mae cartref Peter, ac ef yw prif organydd Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth. Gall adrodd llawer stori am helynt paratoi'r Gramadeg, fel honno pan ddygwyd ei gar - nid am y tro cyntaf - ynghyd â'r llawysgrifau pwysig oedd ynddo. Does ond gobeithio nad yw'r lleidr hefyd wedi bod yn gweithio ar ramadeg Cymraeg, ac yn bwriadu dod â hwnnw o'r wasg cyn cyfrol Peter!

++++++++++

## CYMDEITHAS CYMRY'R EGLWYS NEWYDD

Cafwyd cyngerdd Nadolig tra llwyddiannus yng nghapel Bethel. Croesawyd y gynulleidfa a'r artistiaid gan y llywydd, Glennys Roberts. Y Prifardd Aled Gwyn oedd yn arwain ac fe'n diddanodd ag englynion doniol gan Dic Jones. Canodd Côr Plant Caerdydd dan arweiniad Mair Robins gyda Sandra Semmens yn cyfeilio. Difyrrwyd ni hefyd gan Delyth Medi â'i chanu swynol gyda'r delyn a chanodd parti o ieuenctid Glantaf yn ogystal â chyflwyno eitemau ar y delyn a'r soddgrwth.

Cyn diwedd y noson gwnaed casgliad a chyflwynodd y llywydd siec anrhydeddus o £500 i John Burnett, Trefnydd Apêl Ymchwil y Cancr yn Ysbyty'r Felindre. Mae'r gymdeithas yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd ym mhob ffordd at lwyddiant y noson. Trefnwydf y cyfarfod hwn gan Megan Williams.

Bydd y cyfarfopd nesaf ar 9 Chwefror - Tecwyn Vaughan Jones yn annerch ar "Agweddau ar Lên Gwerin plant."

Ac rydyn ni'n edrych ymlaen hefyd at noson ein swper Gŵyl Dewi. Y gŵr gwadd eleni fydd Mr Emyr Currie Jones, un o brif gymwynaswyr y ddinas.

++++++++++

## CYD MORGANNWG YN CYD-DDATHLU.

Daeth rhyw gant o bobl ynghyd i ddathlu'r Nadolig yn y parti a drefnwyd yng Nghlwb Ifor Bach gan CYD Morgannwg. Yn ogystal â phobl y sir daeth criw mawr ffyddlon o Ferthyr Tudful.

Diolch i bawb a fu'n trefnu, paratoi'r bwyd, gweini a chyfrannu at yr hwyl. Diolch yn arbennig i Iolo Jones, Ar Log, am arwain y canu ar ddechrau'r noson hwyliog hon.

++++++++++

### Y POS CROESEIRIAU

Mae llawer ohonoch chi wedi bod yn gofyn am hynt y posau croeseiriau gan fod cynnyrch misol ap Lewsyn mor boblogaidd gan amryw. Nodwyd yn rhifyn Rhagfyr inni gael trafferthion gyda'n hargraffwyr ar ddiwedd y flwyddyn. Argreffir y rhifyn hwn gan Wasg Morgannwg ac rydyn ni'n graddol ddod i ddeall y drefn newydd. Byddwch yn gweld i'r rhifyn hwn gael ei deipio ac nid ei osod, a hyn sy'n gyfrifol am y ffaith na fydd pos croeseiriau tan fis Mawrth. Mae dau bôs yn barod i'w gosod.

++++++++++++++++

Anfonwch bob deunydd ar gyfer rhifyn Mawrth at un o'r panel golygyddol erbyn 9 Chwefror. Dyma dim golygyddol y rhifyn hwn:
Mrs Tegwen Evans, 6 Ridgeway, Llysfaen, Caerdydd CF4 5RR: (754559).Newyddion cyffredinol
Mr B. D Harries, 6, Lakeside, Caerdydd (756562): Newyddion byd addysg.
Mr Wyn James, 16 Ffordd Kelston, Caerdydd (628754): Newyddion Yr Eglwys Newydd.
Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (756282) Ffacs: 578106.: Newyddion Cyffredinol
*Anfonwch newyddion am chwaraeon at:*
Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffon/Ffacs: 564540):
*Anfonwch newyddion yr eglwysi at:*
Y Parchedig Gwilym E. Davies, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd (626811)
Gellir anfon newyddion rhifyn Mawrth ar dri aelod newydd o'r panel golygyddol:
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn 708253)
Mrs Mary Jones,1 Birch Hill, Tongwynlais, Caerdydd (Ffôn: 810600)
Mrs Linda Thomas, Yr Eglwys Newydd.
**Anfonwch unrhyw sylwadau ynghylch dosbarthu at Mr Alun Ceri Jones, Swyddfa Surrexit, Parc Afon Bridge Road, Caerdydd CF4 2JL. Tel: 01222 578772.**

### HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac. mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pob un sydd am hysbysebu, gysylltwch â:
Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

# OFFER CYFIEITHU

## SENNHEISER






**POB MATH AR GYFER ANGHENION SEFYDLOG NEU SYMUDOL**





**GOFYNNWCH AM RAGOR O FANYLION NEU AM DRÏO OFFER YR ARBENIGWYR**





**CWMNI'R EOS CYF.**
**SGWÂR WESTON**
**Y BARRI DE MORGANNWG**

**FFÔN 01446 741212 FFACS 01446 746120**

# ffilmiau apollo

YCH CHI'N DEULU
SY'N CREDU MEWN SBORT A SBRI?

**OES DIDDORDEB 'DA CHI MEWN CYMRYD RHAN MEWN RHAGLENNI SY'N CAEL EU DARLLEDU AR S4C YM 1996?**

OS YDYCH CHI AM FENTRO
CYSYLLTWCH AG ELERI AR
**01222 590 355**
NEU TRWY LYTHYR
I'R CYFEIRIAD ISOD

**FFILMIAU APOLLO**
**CANOLFAN Y CYFRYNGAU**
**CROES CWRLWYS**
**CAERDYDD**
**CF5 6XJ**

***CYSYLLTWCH Â NI NAWR***

Gwasanaeth Cyfiethu

# MARY JONES

- Profiad helaeth
- Prisiau cystadleuol
- Gwaith o safon
- Ffôn : 01222 810600
- Ffacs : 01222 811796

Ydych chi'n frwd dros y Gymraeg?
Yn chwilio am waith hyblyg?
Llawn amser neu ran amser!
Yn eich ardal eich hun?
Yna mae ....

## Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn chwilio amdanoch chi!

Mae Cymdeithas yr Iaith yn chwilio am bobl i lenwi sawl swydd mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn **SWYDDOG MAES**, ac am ragor o fanylion, yna cysylltwch â:

Y Brif Swyddfa, Pen Roc, Aberystwyth (01970) 624501 neu Arwel Jones (01970) 623816 (dydd) 615741 (nos)

Ceisiadau i mewn erbyn 9/2/96

# gair

**cyfieithu a gwasanaethau swyddfa**

17 Turberville Place Pontcanna Caerdydd CF1 9NX
Ffôn 01222 235029 Ffacs 01222 235039
E-mail 100260,1772 (CompuServe)

GWASANAETH CYFIEITHU

# PRYSG

TRANSLATION SERVICES

Gwaith o safon uchel,
yn brydlon ac yn effeithlon

☎ 01446 775236
Ffacs : 01446 775721

11 Stryd Fawr, Y Bontfaen,
De Morgannwg CF7 7EG